**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet: 27 Tachwedd 2018** | |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | **12 Rhagfyr 2018** |

## PWNC

Eitem 6:ADNODDAU CYDLYNYDD STRATEGAETH IAITH UWCHRADD GWYNEDD

## PENDERFYNIAD

a) I ymrwymo £20,000 o gyllid hyd at ddiwedd Mawrth 2019 o'r Gronfa Trawsffurfio i ariannu swydd Cydlynydd Strategaeth Iaith Uwchradd Gwynedd. Bydd y swydd yn gyfrwng i wireddu un o'r ymrwymiadau yng Nghynllun y Cyngor, fydd yn arwain at gynnydd pellach yn nefnydd cymdeithasol a chwricwlaidd disgyblion o'r Gymraeg.

b) I ddychwelyd gerbron y Cabinet gyda chais am adnoddau pellach i ariannu swydd Cydlynydd Strategaeth Iaith Uwchradd Gwynedd o 2019/20 ymlaen, pe na fyddai'r trafodaethau gyda'r consortia rhanbarthol (GwE) i gyllido'r swydd i'r dyfodol yn profi yn llwyddiannus.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mae gwireddu gweledigaeth ac amcanion Strategaeth Iaith Uwchradd Gwynedd wedi ei gynnwys yng Nghynllun y Cyngor 2018-2023.

Mae llunio a gweithredu gofynion y Strategaeth Iaith Uwchradd yn ymateb yn uniongyrchol i'r galw ymhlith ysgolion cynradd ac uwchradd y sir, ynghyd ag aelodau etholedig i weld dilyniant i'r Siarter Iaith yn yr ysgolion cynradd, gan sicrhau cynnydd pellach yn nefnydd cymdeithasol a chwricwlaidd pobl ifanc o'r Gymraeg.

Bu i'r Adran Addysg ddod gerbron y Cabinet flwyddyn yn ôl yn gofyn am ymrwymiad o adnoddau ychwanegol er mwyn gwireddu amcanion y Strategaeth am gyfnod o dair blynedd. Bryd hynny gofynnwyd i'r Aelod Cabinet dros Addysg ac yr Aelod Cabinet dros yr Iaith Gymraeg i ysgrifennu ar yr Ysgrifenyddion Cabinet perthnasol y Llywodraeth i ofyn am arian i ariannu'r swydd Cydlynydd.

Yn dilyn gohebiaeth gydag Eluned Morgan AC Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, cyfeiriwyd y cais gan Lywodraeth Cymru ar y consortia rhanbarthol GwE.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** 27 Tachwedd 2018<br><br>**Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym**:<br>Ystyriwyd y mater yma yn fater brys oherwydd gofynion amserlennu prosiect ac yn unol a pharagraff 7.25.2 o Gyfansoddiad y Cyngor a gyda chaniatâd Cadeirydd y Cyngor mae'r penderfyniad yn cael ei eithrio o'r drefn galw i mewn ac yn dod i rym ar dyddiad y cyfarfod a'r penderfyniad. | |

**PWNC**

Eitem 7:DATGANIAD O EFFAITH LLEOL YN SGIL DATBLYGU GORSAF BWER NIWCLEAR NEWYDD, WYLFA NEWYDD

**PENDERFYNIAD**

a) Cymeradwyo'r datganiad o effaith lleol drafft yn Atodiad 1.

b) Dirprwyo'r hawl i'r Pennaeth Adran Amgylchedd, i wneud man addasiadau a chywiriadau fel bod angen i'r datganiad drafft ac i ychwanegu tystiolaeth berthnasol i gefnogi cyfeiriad y datganiad drafft, cyn cyflwyno'r ddogfen i'r Arolygiaeth Gynllunio erbyn y 4 Rhagfyr 2018.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Ar 1 Mehefin 2018 cyflwynodd cwmni Pŵer Niwclear Horizon gais ar gyfer Gorchymyn Cydsyniad Datblygu i'r Ysgrifennydd Gwladol am orsaf bŵer niwclear newydd i ddatblygu prosiect Wylfa Newydd.

Yn unol â threfniadau statudol, rhoddwyd 28 diwrnod i'r Arolygiaeth Gynllunio i wirio'r cais er mwyn sicrhau fod y wybodaeth a gyflwynwyd yn bodloni'r gofynion perthnasol, a chadarnhawyd yn ffurfiol ar 28 Mehefin 2018 fod y cais wedi ei dderbyn.

Er nad yw Wylfa Newydd wedi ei leoli yng Ngwynedd, bydd y datblygiad ar yr un llaw yn gyfle i'r economi leol ac ar y llaw arall yn creu heriau i Wynedd o ran materion megis isadeiledd, trafnidiaeth, farchnad lafur, gwasanaeth cyhoeddus a'r iaith Gymraeg.

Mae'r Datganiad o Effaith Lleol (Drafft) yn cyfleu barn y Cyngor ar yr effaith lleol ar Wynedd, a bydd yn cael ei gyflwyno fel tystiolaeth i'r Arolygiaeth Gynllunio fel rhan o'r broses archwiliad

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet: 27 Tachwedd 2018** | |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | **12 Rhagfyr 2018** |

## PWNC

Eitem 8:CYNLLUN Y CYNGOR 2018-2023 - CAIS AM ADNODDAU PARHAOL I STAFFIO UNED DEMENTIA NEWYDD YN LLYS CADFAN, PLAS HAFAN, PLAS HEDD A BRYN BLODAU

## PENDERFYNIAD

Neilltuo £808,000 i gefnogi gweithrediad y flaenoriaeth Ail-ddylunio Gwasanaethau Gofal o fewn Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023 ac i gyfarfod gofynion Arolygaeth Gofal Cymru o ran staffio rotas cartrefi preswyl

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mae Cynllun y Cyngor 2018-23 a fabwysiadwyd ar yr 8fed o Fawrth yn nodi'r bwriad i ddatblygu Unedau Dementia yn y cartrefi Llys Cadfan, Plas Hafan, Plas Hedd a Bryn Blodau.

Mae'r gwaith o fuddsoddi yn yr adeiladau yn Llys Cadfan, Plas Hafan a Phlas Hedd wedi eu cwblhau a'r gwaith mewnol ym Mryn Blodau yn cael ei gwblhau cyn diwedd y flwyddyn.

Ychwanegwyd fod y buddsoddiad cyfalaf yma wedi ei wneud gydag adnoddau cronfa ICF Llywodraeth Cymru, ac mae'r cyngor wedi llwyddo i ddenu'r buddsoddiad ar sail esblygu'r gwasanaeth er mwyn ymateb i anghenion mwy dwys. Ynghyd a rhoi sylfaen ar gyfer datblygu a chryfhau'r cydweithrediad rhwng y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd ar lefel leol.

Mynegwyd fod angen y penderfyniad os yw'r Cyngor am neilltuo adnoddau refeniw parhaol ar gyfer y rhaglen ddatblygu fel bod y Cyngor yn gwireddu nod y rhaglen a gwneud y defnydd o'r gofod newydd. Heb y buddsoddiad bydd cyfraniad y cartrefi i gynnig gofal dementia a gofal diwedd oed / mwy dwys yn agosach at adref yn cael ei gyfyngu, a bydd yn y gwasanaethau yn parhau yn ei ffurf bresennol ond yn gweithredu mewn adeiladau gwell a mwy addas.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â’r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet: 27 Tachwedd 2018** | |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | **12 Rhagfyr 2018** |

## PWNC

Eitem 9:SEFYDLU CYFUNDREFN AR GYFER YMDRIN A SWYDDOGAETHAU'R CYNGOR FEL CORFF CYMERADWYO CEISIADAU SAFONNAU CENEDLAETHOL DRAENIO CYNALADWY

## PENDERFYNIAD

1. Fod gweithredu cyfrifoldebau statudol o'r Corff Cymeradwyo SDCau (CCS) i'w priodoli drwy'r Gwasanaeth Ymgynghoriaeth
2. Dirprwyo'r cyfrifoldeb a phwerau CCS dan Adran 32 ac Atodlen 3 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 i Bennaeth Ymgynghoriaeth gyda'r hawl i ddirprwyo ymhellach fel sydd yn briodol
3. Dirprwyo'r hawl i'r Pennaeth Ymgynghoriaeth sefydlu cyfundrefn benderfynu ceisiadau yn unol â'r Ddeddfwriaeth ac Arweiniad Statudol
4. Dirprwyo'r hawl i Swyddog Monitro i addasu'r Cynllun Dirprwyo yn y Cyfansoddiad i adlewyrchu'r penderfyniad yma.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mae Atodlen 3 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 yn gorchymyn y dylai systemau draenio dŵr wyneb ar gyfer datblygiadau newydd gydymffurfio a Safonau Cenedlaethol ar gyfer draenio cynaliadwy. Mae Atodlen 3 hefyd yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol fel Corff Cymeradwyo SDCau i gymeradwyo, mabwysiadau a chynnal systemau sy'n cyd-fynd ag adran 17 yr Atodlen.

Bydd rhan Atodlen 3 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 yn dod yn weithredol yng Nghymru ar y 7fed Ionawr 2019. Mae angen sicyrhau fod y gyfundrefn a'r hawliau i'w gweithredu yn cael eu sefydlu'n briodol.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â’r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad